



## Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).<sup>1</sup> Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroseswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goreswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol.

<sup>1</sup> Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Ciwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.



Rydym yn treillau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroewyr' (*SEEdS*), sy'n grymuso goreswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod o gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

## Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

**Eich profiad o achosion plant cyfraith breifat.**

*Mae'r cwestiwn hwn i rieni sydd wedi bod i'r llys teulu oherwydd anghydfod ynglŷn â threfniadau ar gyfer eu plant wedi iddynt wahanu (sef 'achosion plant cyfraith breifat').*

N/A

**Codi honiadau o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat**

**1. A oes unrhyw anawsterau o ran codi mater cam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill yn erbyn rhiant neu blentyn, mewn achosion plant cyfraith breifat?**

- a. Oes**
- b. Nac oes**
- c. Ddim yn gwybod**

Beth sydd o gymorth i ddiodefwrwr cam-drin neu droseddau eraill i godi'r mater neu beth a allai eu hatal rhag gwenudd hynny?

Mae goreswyr a gwasanaethau wedi dweud wrthym y gall union brosesau'r llysoedd teulu weithredu fel rhwystr. Cydnabyddir yn gyffredinol bod cyfryngu yn amhriodol mewn achosion o gam-drin

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx)



domestig, a hynny oherwydd yr anghydbwysedd o ran pŵer o fewn y berthynas a'r cyfle i'r drwgweithredwr fygwth ymhellach. Fodd bynnag, caiff ei weld o hyd weithiau fel ffordd o atal uwchgyfeirio i'r llysoedd. Felly, efallai mai profiadau cyntaf menyw o broses y llys teulu yw cael ei gorfodi mewn ystafell gyda'r drwgweithredwr i 'ddatrys eu gwahaniaethau' heb unrhyw ddealltwriaeth gan y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r mater o'r risg sydd ynghlwm â hynny a'r dymameg pŵer o fewn y berthynas. *'(maen nhw'n) eich gosod chi nôl yn yr un ystafell â'r camdriniwr, er mwyn ceisio'ch cael chi i gyfryngu ag e pan taw fe sydd â'r pŵer i gyd a fe sydd wedi'ch domiwnyddu chi am flynyddoedd, does dim siawns gyda chi, dyw e ddim yn gyfartal<sup>2</sup>'*. Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn o ddymameg a pheryglon cam-drin domestig a rheolaeth gymhellol gan weithwyr proffesiynol, megis cyfreithwyr a bargyfreithwyr, yn thema gyffredin a godwyd gan oroeswyr.

Mae canfyddiadau wedi dangos i fenywod gael eu hatal rhag codi mater cam-drin domestig, a hynny gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r llysoedd teulu<sup>3</sup>. Mae gan Cymorth i Ferched Cymru dystiolaeth grwpiau ffocws sy'n gweithio gyda goroeswyr<sup>4</sup> eu bod fel arfer yn teimlo nad yw pobl yn eu credu a bod y cam-drin yn cael ei fychanu gan weithwyr proffesiynol, ac amlygwyd hyn gan adroddiadau gan asiantaethau eraill hefyd. Yn ogystal â'r llysoedd yn credu ferswin y drwgweithredwr o'r digwyddiadau, fel y dywedodd un goroeswr; *'Allwn i ddim (codi mater y cam-drin) achos ei fod e'n gallu manipiwleiddio'r llysoedd i wneud i fi ymddangos yn wallgof a byddai'n dweud wrthyn nhw am beth ro'n i ei feio fe, gan ddweud mod i wedi ei fygwth e yn lle dweud am y cam-drin roedd e wedi gwneud i fi ddiodeff! Ac wedyn dweud byddwn i'n gwneud unrhyw beth i'w atal e rhag gweld ei blant!'*.

Erbyn iddynt fynd drwy broses y llys teulu, mae goroeswyr cam-drin yn debygol o fod wedi'u digalonni yn barod gan wasanaethau statudol. Gwyddom nad yw profiadau cyntaf menywod o ddatgelu bob amser yn gadarnhaol, a theimlant yn aml nad yw pobl yn eu credu<sup>5</sup>. Adroddir am hyn yn arbennig o fewn y system llysoedd teulu lle mae menywod wedi'n hysbysu y dywedwyd wrthynt y gallai datgeliadau niweidio'u hachos, a gall hyn ddwyn perswâd ar rai menywod i beidio â 'chodi' mater y cam-drin yng nghyd-destun y llysoedd teulu. Gall hyn gael goblygiadau difrifol i'r risg sy'n wynebu'r goroeswr a'r plant yn ogystal. Mae goroeswyr wedi dweud wrthym bod hyn yn ymestyn i gyngor a

<sup>2</sup> Ydych chi'n Gwrando, Ydw i'n cael fy nghlywed? Cymorth i Ferched Cymru

<https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are-you-listening-and-am-I-being-heard-FINAL-July-2016.pdf> tudalen 39

<sup>3</sup> Domestic Abuse, Human Rights and the Family Courts, Jenny Birchall a'r Athro Shazia Choudhr, Women's Aid Federation England <https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2018/05/Domestic-abuse-human-rights-and-the-family-courts-report.pdf> tudalen 24

<sup>4</sup> Ydych chi'n Gwrando, Ydw i'n cael fy nghlywed? Op Cit tudalen 40

<sup>5</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/change-that-lasts/>

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962 <https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



sylwadau ynghylch y defnydd o fesurau amddiffyn neu bresenoldeb gweithwyr cymorth, sy'n aml yn cael eu hatal gan y llys oherwydd y farn y byddai hyn yn 'gogwyddo' achos 'yn annheg'.

Byddai o gymorth i oroeswyr godi mater cam-drin domestig petaent yn teimlo, o'r cychwyn cyntaf, eu bod yn ddiogel, bod cefnogaeth iddynt wneud hyn, bod pobl yn eu credu a'u bod yn mynd i gael eu hamddiffyn. Gellir cyflawni hyn drwy bolisiau clir a chanllawiau a hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses yn y llysoedd teulu, yn ogystal â sicrhau bod gan bob goroeswr fynediad at gymorth gwasanaethau arbenigol, eiriolaeth a chwmsela cyn treial. Awgrymodd un goroeswr i ni y gallai pob ffurflen llys gynnwys ar ei brig flwch ticio i ddangos a oes honiad o gam-drin domestig, fel bod hyn yn glir ac yn derbyn y sylw priodol gan y llys.

Croesawn yn fawr gyflwyniad Cafcass Cymru o Ganllawiau newydd ar Gam-drin Domestig yng Nghymru, ynghyd â'r hyfforddiant i ymarferwyr Cafcass, ond mae'n rhaid cynnwys cyfryngwyr, cyfreithwyr a barnwyr ymhlith y staff hanfodol eraill sydd i'w hyfforddi i adnabod arwyddion bychain rheolaeth gymhellol. Mae'n rhaid i'r hyfforddiant hwn ystyried sut y mae drwgweithredwyr yn defnyddio'r llysoedd ac asiantaethau statudol eraill er mwyn parhau i gam-drin. Pryderwn fod yr hyfforddiant cyfredol, ar ei orau, yn ad hoc ac yn anghyson. Yng Nghymru, mae'n rhaid i unrhyw hyfforddiant ar gyfer yr Adran Deulu fod yn gyson â'r cyd-destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac wedi'i ddatblygu a'i ddarparu gan sector arbenigol trais yn erbyn menywod yng Nghymru. Cefnogwn hefyd alwadau gan Women's Aid Federation England am i hyfforddiant gael ei ddarparu gan arbenigwyr ar hawliau dynol.

Mae'r anghysondeb presennol hwn mewn hyfforddiant wedi arwain at anghysondeb mewn ymateb gan farnwyr. Dywedodd un gweithiwr cymorth wrthym am oroeswr y clywyd ei hachos gan ddau farnwr gwahanol ag agweddau gwahanol iawn. Teimlai bod un barnwr yn ei chredu ac yn ei chefnogi, ond teimlai bod ei phryderon yn cael eu diystyru gan y llall. Pan fo newid barnwyr yn digwydd, gall y gwahaniaethau hyn mewn agweddau arwain at bryder mawr ac at ganlyniadau gwahanol iawn.

Pryderwn hefyd fod diffyg cymorth cyfreithiol yn atal goroeswyr rhag gweithredu. Mae angen adolygu rheoliadau cymorth cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y prawf modd yn adlewyrchu sefyllfa ariannol wirioneddol goroeswr, yn hytrach nag eiddo neu asedau na ellir eu cyrraedd oherwydd cam-drin economaidd. Mae cynrychiolaeth ddigonol o ran cymorth cyfreithiol wedi dod yn broblem bellach mewn nifer o ardaloedd gwledig yng Nghymru lle y ceir lleihad yn nifer y cyfreithwyr a'r barnwyr sydd ar gael.

Yn olaf, mae angen mynediad cyson at fesurau arbennig a diwedd llwyr ar groesholi ymgyfreithwyr yn bersonol, a hynny ar draws y llysoedd, er mwyn rhoi stop ar gyfleoedd i ddrwgweithredwyr barhau i gam-drin ac ar unrhyw ymgeis i danseilio neu ddwyn anfri ar y goroeswr. Mae manylion pellach am hyn wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn ein hadborth.

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



## Lleisiau plant

### 2. Sut y caiff lleisiau plant eu hystyried mewn achosion plant cyfraith breifat pan fo honiadau o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill? A ydy plant yn teimlo'u bod wedi'u clywed yn yr achosion hyn? Beth sy'n helpu neu'n rhwystro plant rhag cael eu clywed?

Awgryma tystiolaeth gan oroeswyr nad yw lleisiau plant yn cael eu hystyried na lleisiau eu mamau ychwaith. Yn ein hadroddiad, 'Ydych chi'n Gwrando, Ydw i'n cael fy nghlywed?', y prif deimlad ymhlith cyfranogwyr grwpiau ffocws oedd bod hawl y rhiant camdriniol i weld ei blant fel petai'n drech na diogelwch a lles y plant hynny; 'Dyn nhw ddim yn gwrando ar blant, mae'r plant hyn sy'n ofni eu tadau'n mynd drwy uffern'<sup>6</sup>. 'Mae fy mhlentyn i'n cael ei lusgo, yn cicio ac yn sgrechian, i ymweliadau cyswllt, ond 'dy'n nhw'n gwneud dim'<sup>7</sup>.

Mae goreswr arall wedi dweud wrthym; 'Drwy orfodi fy mhlant i i weld eu tad, bydd y boen mae'n achosi i ni yn aros gyda fi am byth. Dylai plant gael eu hystyried yn ganolog i hyn; nid cam-drin ail-law oedd fy mhlant i'n ei brofi.'

Mae goreswyr hefyd wedi cael eu gadael i gredu eu bod yn rhwystrol neu'n dweud celwydd er mwyn atal cyswllt. 'Doedd neb am glywed lleisiau fy mhlant i gan eu bod nhw'n sicr mod i wedi manipiwleiddio'r plant i beidio eisiau'u tad!!!!- nes bod y plant yn datgelu i'r ysgol y niwed roedd eu tad wedi bod yn ei wneud tra mod i dan orchymyn i anfon fy mhlant i neu wynebu'r risg o gael fy ngharcharu neu'u colli nhw'.

Dengys ymchwil fod menywod yn gyffredinol yn dymuno i'w plant gael cyswllt cyhyd â'i fod er lles y plentyn, felly, pan godant bryderon ynghylch cyswllt, y mae oherwydd bod ganddynt ofnau dilys ynghylch cipio neu drais<sup>8</sup>.

Dengys ymchwil nad yw plant bob amser yn rhan o'r drafodaeth yn y broses o benderfynu ar gyswllt, neu nad oes digon o amser nac adnoddau'n cael eu neilltuo i greu perthynas gyda phlant er mwyn meithrin ymddiriedaeth. Canfu achos a amlygwyd yn yr adroddiad *Child First, 19 Child Homicides* gan Women's Aid Federation England, fod llys wedi gwneud gorchymyn i gael cyswllt heb oruchwyliaeth, er gwaetha'r ffaith fod y plentyn wedi datgelu bod ei dad yn cam-drin yn emosiynol a'i fod yn ei ofni.<sup>9</sup>

<sup>6</sup>Ydych chi'n Gwrando, Ydw i'n cael fy nghlywed? op cit, tudalen 39

<sup>7</sup> Ibid, tudalen 39

<sup>8</sup><https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=AvcPBQAAQBAJ&oi=fnd&pg=PP1&dq=mothering+through+domestic+violence&ots=XgNK5MUjiE&sig=eF5r5bP3Um5-UkTPNVZ2Qa7kfhk#v=onepage&q=mothering%20through%20domestic%20violence&f=false>

<sup>9</sup> Women's Aid Federation England, 19 Child Homicides, <https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2016/01/Child-First-Nineteen-Child-Homicides-Report.pdf>, tudalen 24

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



Pryderwn hefyd fod gormod o ddisgwyliad ar blant i reoli eu diogelwch a'u lles eu hunain, pan ofynnir iddynt am gyswllt â rhieni sy'n cam-drin. Nid yw'n cydnabod y gwaith y mae mamau'n ei wneud i amddiffyn eu plant, gymaint ag y bo modd, rhag y cam-drin. Fel y canfu Emma Katz, er bod plant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan reolaeth gymhellol, maen nhw, gyda'u mamau, yn darganfod ffyrdd i wrthsefyll hyn.<sup>10</sup> Felly, mae'n bosibl na fydd plant wedi profi'r gwaethaf o'r cam-drin oherwydd amddiffyniad eu mam, fodd bynnag, os caiff y rhiant camdriniol gyswllt heb oruchwyliaeth, nid yw'r amddiffyniad hwnnw yno. Ymddengys fod dymuniadau plant yn ddibynnol ar 'ddull detholus'; pan fyddant yn dymuno cael cyswllt caiff ei ystyried ond pan nad ydynt yn dymuno hynny, caiff y dymuniadau hynny eu diystyru. Rydym yn awyddus i bwysleisio yma, pan fydd plentyn wedi profi rheolaeth gymhellol gan riant camdriniol, ei fod yn bosibl y bydd y llais a glywir yn y lle cyntaf gan weithwyr proffesiynol wedi'i ddylanwadu'n sylweddol gan y drwgweithredwr, yn hytrach na'i fod yn mynegi gwir dymuniadau a theimladau'r plentyn. Nododd goroeswr; *'dywedodon nhw wrtha i pe bai plentyn wedi gweld neu wedi dioddef camdriniaeth y byddai'n cilio rhag y camdriniwr. Doedd dim i nodi oedran ifanc fy mhlant i, faint ro'n i wedi gorfod camu mewn i'w hamddiffyn nhw, beth ro'n nhw'n wybod fel petai'n normal, faint ro'n nhw wedi cael eu rheoli'n gymhellol'*.

Mae plant yn parhau i ddangos ymddygiad a ddysgwyd gan y drwgweithredwr os oes gorchymyn cyswllt ar waith. Mae hyn yn barhad o gam-drin y plentyn/plant, ond nid yw'n cael ei gydnabod ac ni chynigir unrhyw gymorth i negyddu'r niwed hwn. Ni fydd plant o angenrheidrwydd yn cysylltu'r ymddygiad hwn â cham-drin, a dyna paham y mae angen rhoi mwy o werth a dilysrwydd i lais y fam ynghyd â llais y plentyn.

### Y weithdrefn lle y codir cam-drin domestig

*Pan fydd honiadau o gam-drin yn cael eu codi gan riant mewn achosion sy'n ymwneud â threfniadau plant, mae'r ffordd y dylai'r llys ymateb i'r honiadau wedi'i gosod yn rhan o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu o'r enw Cyfarwyddyd Ymarfer 12J. Dywed y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn y dylai'r barnwr benderfynu yn gyntaf a fyddai'r honiadau yn gwneud gwahaniaeth i unrhyw orchmynion y gallai'r barnwr eu gwneud ynghylch y plant. Os felly, ac os nad yw'r rhiant arall yn cytuno â'r honiadau, dylai'r llys gynnal 'gwrandawriad canfod ffeithiau' er mwyn penderfynu a yw'r honiadau'n wir. Os canfyddir bod y cam-drin wedi digwydd, dylai'r llys gael gwybodaeth am y risg o niwed yn y dyfodol, a dim ond gwneud gorchmynion a fydd yn cadw'r plentyn a'r rhiant y mae'n byw gyda hi/ef yn ddiogel.*

### 3. A ydy gwrandawriadau canfod gwybodaeth yn cael eu cynnal pan ddylent?

- Ydyn
- Nac ydyn

<sup>10</sup> <https://avaproject.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Emma-Katz-2016.pdf>

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962 <https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



c. Ddim yn gwybod

Os na chânt eu cynnal, pa resymau a roddir?

Fel y dywedodd un aelod o Cymorth i Ferched Cymru, 'y *thema sy'n codi dro ar ôl tro yw nad yw'r llysoedd teulu eisiau clywed am gam-drin domestig a'u bod nhw'n gweld hyn fel 'gwahaniaethau rhianta'. Dyw hi ddim yn ymddangos chwaith eu bod nhw'n cymhwyso Cyfarwyddyd Ymarfer 12J.'*

Deallwn fod sesiynau canfod gwybodaeth yn anghyson a bod posibilrwydd na chânt eu cynnal oherwydd y teimlir y bydd yr honiadau o gam-drin domestig (lle maen nhw'n cael eu credu) yn rhy anodd i'w profi neu mae'n bosibl y cânt eu hystyried yn rhy gostus neu'n rhy araf deg heb ganlyniad boddhaol. Yn ogystal â hyn, os nad yw'r Heddlu neu'r awdurdod lleol yn cadw unrhyw dystiolaeth ategol, ni all Cafcass Cymru fynd at asiantaethau cynnal eraill heb ganiatâd.

Adolygodd Women's Aid Federation England a Cafcass Lloegr sampl o 216 achos cyfreithiol preifat gan ganfod ei bod yn anghyffredin iawn i orchymyn gwrandawriad canfod ffeithiau. O'r 133 o achosion a oedd yn cynnwys honaid o gam-drin domestig, dim ond pum gwrandawriad canfod gwybodaeth a orchymynnwyd gan y llys.<sup>11</sup>

Pryderwn am hyd yr amser y gallai ei gymryd i wrandawriadau canfod gwybodaeth ddigwydd, fel yr eglurodd un goroeswr i ni; 'dy'n nhw ddim yn gweld y manteision er, heb fod y ffeithiau ac adroddiadau'r heddlu wedi cael eu clywed, fyddai fe erioed wedi cael ei ddarganfod fel perygl i fi a'i blant e. Ond dylai hyn gael ei wneud lawer yn gynt, cymerodd bum mlynedd i fi'. Esboniodd y goroeswr hwn mai'r teimlad ar y cychwyn oedd nad oedd angen gwrandawriad canfod ffeithiau oherwydd y farn 'eich bod yn manipiwleiddio er mwyn rhwystro cyswllt neu oherwydd nad oedden nhw wedi darllen y nodiadau i weld pa dystiolaeth oedd yna'.

**6. Os gwelir bod cam-drin domestig wedi digwydd, sut y caiff y risg ar gyfer y dyfodol ei asesu a phwy fydd yn gwneud yr asesiad? A yw'r risg yn cael ei asesu mewn perthynas â'r plant yn unig, neu mewn perthynas hefyd â'r rhiant nad yw'n camdrin?**

Nid yw'n ymddangos bod gwrandawriadau canfod ffeithiau yn cydnabod rheolaeth gymhellol ond eu bod yn parhau i ystyried cam-drin domestig fel rhywbeth sy'n digwydd ar sail digwyddiadau ac fel rhywbeth sy'n digwydd rhwng y partneriaid sy'n oedolion yn unig; mae hyn yn ei gwneud hi'n anos

<sup>11</sup>Cafcass and Women's Aid, Allegations of domestic abuse in child contact cases, 2017

[file:///C:/Users/elicrouch-puzey.WWA/AppData/Local/Packages/Microsoft.MicrosoftEdge\\_8wekyb3d8bbwe/TempState/Downloads/Allegations-of-domestic-abuse-in-child-contact-cases-2017%20\(1\).pdf](file:///C:/Users/elicrouch-puzey.WWA/AppData/Local/Packages/Microsoft.MicrosoftEdge_8wekyb3d8bbwe/TempState/Downloads/Allegations-of-domestic-abuse-in-child-contact-cases-2017%20(1).pdf)

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962 <https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



darganfod tystiolaeth os nad oes yna drais corfforol ac os caiff rheolaeth gymhellol ei ddiystyru. Mae hyn er gwaethaf canfyddiadau Emma Katz bod plant yn profi rheolaeth gymhellol ar yr un lefel â'r rhiant nad yw'n cam-drin<sup>12</sup>. Yn ogystal â hyn, noda'r Athro Evan Stark, pan fydd y patrwm hwn o gam-drin yn cael ei ystyried gan asiantaeth allanol, na chaiff y patrwn 'nodweddiadol' o gam-drin plant ei weld. Gall y trais corfforol/rhywiol ymddangos fel petai ar 'lefel isel' felly os caiff y cam-drin i'r plentyn ei ystyried yn ôl model sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau, ni welir effeithiau cronus y rheolaeth gymhellol ar y plentyn<sup>13</sup>.

At hyn, nid yw gwrandawiaidau canfod gwybodaeth yn ystyried lefel yr ofn y mae goreswyr a'u plant yn ei deimlo na'r risg barhaus y mae'r drwgweithredwr yn ei hachosi; *'fe wnaeth (y gwrandawiad canfod ffeithiau) fywyd fy mhlant i'n uffern gan fod popeth roedden nhw wedi'i rannu neu'i ddatgelu wedi'i adrodd nôl i'r drwgweithredwr a chafodd y plant eu bygwth gan eu gadael nhw'n rhy ofnus i ddatgelu mwy, a chaniatáu i fwy o niwed ddigwydd'*.

Dengys tystiolaeth yn barhaus fod y cam-drin a brofir gan y fam yn cael ei ystyried fel rhywbeth sydd ar wahân i'r plant ac y tybir bod diwedd perthynas yn golygu y bydd y cam-drin yn dod i ben. Mae Adolygiadau Achosion Difrifol wedi amlygu fod yna ddiffyg ystyriaeth o sut y gall cam-drin domestig beri risg benodol i blant<sup>14</sup> a bod y dybiaeth bod diwedd y berthynas yn ffactor amddiffynnol yn fethiant difrifol sy'n arwain yn rhannol at drefniadau cyswllt annigol.

Mae llawer o asiantaethau statudol wedi methu â chydabod y risg barhaus a geir ar ôl gwahanu, ac mae hyn wedi bod yn amlwg mewn amrywiol Adolygiadau Dynladdiadau Trais Domestig. Yn ogystal â hyn, ni chydabyddir ychwaith bod mynd ati i gynnal cyswllt â phlentyn fel ffodd o barhau i reoli a cham-drin gan y drwgweithredwr yn ffactor risg (mae hwn yn ddigwyddiad cyffredin iawn a adroddwyd i ni gan goreswyr).

Pan gaiff risg ei hadnabod yn briodol gan asiantaethau eraill, ymddengys fod hyn yn cael ei ystyried ar wahân i'r asesiad risg gan y llysoedd teulu, sy'n arwain at wahaniaethau rhwng canfyddiadau'r llys teulu ac asiantaethau eraill, gan adlewyrchu 'model tair planed' Marianne Hester<sup>15</sup>. Y blaned trais domestig yw honno lle yr ystyrir bod cam-drin domestig yn drosedd a rhoddir y ffocws ar gymryd camau yn erbyn y drwgweithredwr; y blaned amddiffyn plant yw honno lle y caiff y drwgweithredwr yn aml ei ddal yn gyfrifol am ganlyniadau'r cam-drin a lle y bydd gofyn yn aml i famau dynnu eu hunain a'r plant oddi wrth y drwgweithredwr; a'r blaned cyswllt â phlant yw honno lle y symudir y pwyslais wedyn tuag at y plentyn yn cael cyswllt â'r ddau riant. Fel y nododd un gweithiwr teulu *'mae'r*

<sup>12</sup> <https://avaproject.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Emma-Katz-2016.pdf>

<sup>13</sup> <https://www.youtube.com/watch?v=kvHbVzTzpX0>

<sup>14</sup> 19 Child Homicides, op cit, tudalen 22

<sup>15</sup> <http://www.bristol.ac.uk/news/2009/6703.html>





*gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi cyngor am amddiffyn plant heb ystyried y gorchmynion llys sydd ar waith'. Yng nghanol y tair planed hyn mae'r rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn sy'n derbyn negeseuon sy'n gwrth-ddweud ei gilydd ac sy'n aml yn cael eu gosod mewn sefyllfaoedd anniogel.*

Tynnodd aelod o Cymorth i Ferched Cymru sylw at achos lle roedd tystiolaeth gan y Gynhadledd Amlasinataeth Asesu Risg (MARAC), y ganolfan blant, yr ysgol a gweithiwr plant arbenigol, ond gwrthodwyd y rhain i gyd, a hynny er gwaethaf ymosodiad corfforol ar blentyn yn cael ei weld yn ystod cyswllt. Bu'n rhaid cael adroddiad gan Seicolegydd i 'brofi' bod y plentyn wedi dychryn ac ataliwyd y cyswllt.

Canfu adroddiad *Domestic Abuse, Human Rights and the Family Courts*, a ddilynodd *19 Child Homicides*, fod goroeswyr yn dal i deimlo nad oedd tystiolaeth o gam-drin domestig yn cael ei hystyried o ddifrif a bod hyn wedi arwain at drefniadau cywllt a oedd, o bosibl, yn anniogel.<sup>16</sup>

Yng Nghymru, yr argymhelliad yw na ddylai unrhyw gyswllt heb oruchwyliaeth ddigwydd nes bod asesiad risg llawnach wedi'i wneud gan rai sydd ag arbenigedd o ran gweithio gyda drwgweithredwyr<sup>17</sup>, fodd bynnag rydym yn ymwybodol nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, yn wahanol i Loegr lle y gall y llys orchymyn ac ariannu lle ar raglen i ddrwgweithredwyr. Mae hyn yn peri pryder i'n haelodau sydd wedi codi'r mater bod cam-drin domestig yn aml yn cael ei adnabod fel 'trais cilyddol' gan y llys mewn achosion pan fo'r goroeswr yn ddiodeffwr dialgar sy'n ceisio'i hamddiffyn ei hun neu'i phlant.

## **7. Pa mor effeithiol yw Cyfarwyddyd Ymarfer 12J o ran amddiffyn plant a dioddefwyr cam-drin domestig rhag niwed?**

Dyweododd nifer o weithwyr plant arbenigol wrthym nad ydynt wedi gweld Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn cael ei ddefnyddio'n gyson ers iddo gael ei adolygu yn 2017 ac na allent roi enghreifftiau o sut y mae wedi gwella canlyniadau ers y newidiadau. Dywed goroeswyr wrthym na chaiff Cyfarwyddyd Ymarfer 12J ei ddefnyddio ym mhob achos o gam-drin domestig. Yn rhy aml, nododd goroeswyr nad oedd pobl yn eu credo am y cam-drin ac felly ni chafodd y cyfarwyddyd ei ddefnyddio. *'Roedd yn caniatáu i'r cam-drin barhau a gwaethygu dros y cyfnod o 5 mlynedd pan oedd rhaid i fi fynd i'r llys a brwydro dros beth oedd wedi cael ei brofi'n barod gan yr heddlu, tra oedd e'n parhau i guro'i bartner presennol'*. Adleisiwyd hyn gan weithwyr cam-drin domestig arbenigol sydd wedi canfod nad oedd cysylltiadau yn cael eu gwneud ac nad oedd tystiolaeth gan bartner newydd y drwgweithredwr yn cael ei defnyddio i gefnogi honiadau menywod o gam-drin domestig.

<sup>16</sup> Domestic Abuse, Human Rights and the Family Courts, Op Cit, tudalen 6

<sup>17</sup> Plant yng Nghymru, Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, tudalen 22



Yr hyn sy'n peri pryder hefyd yw bod llysoedd teulu wedi parhau, ar ôl cyflwyno Cyfarwyddyd Ymarfer 12J, i gymeradwyo 'cyswllt costied a gostio' a bod trais hanesyddol neu drais nad yw'n gorfforol yn cael ei israddio neu ei ddiystyru mewn trefniadau cyswllt. Yr hyn sy'n amlwg yw bod dynion ystrywgar yn argyhoeddi'r llysoedd eu bod yn dadau da sy'n haeddu cael cyswllt â'u plant. Felly, er gwaethaf cyflwyno Cyfarwyddyd Ymarfer 12J, y teimlad parhaus yw y gellir gwahanu ymddygiad y tad tuag at y fam oddi wrth ei ymddygiad tuag at y plant a hyd yn oed os caiff ei ddefnyddio, y casgliad yw nad ydyw'n berygl i'r plant. Yr hyn sy'n amlwg yma felly, yw bod angen newid sylweddol mewn diwylliant, ochr yn ochr â'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, sy'n gofyn am ddarparu ar frys hyfforddiant o ansawdd uchel i bob aelod o staff ynghylch cam-drin domestig, rheolaeth gymhellol a chydgyllwynio.

Dengys ymchwil nad oedd cyflwyno Cyfarwyddyd Ymarfer 12J ar ei ben ei hun yn ddigon a bod y 'stereoteip negyddol systematig' o oroeswyr cam-din domestig a mamau sy'n codi pryderon am gyswllt â phlant yn atal effeithiolrwydd y polisiâu hynny<sup>18</sup>. Mae goroeswyr wedi codi'r pwynt hefyd bod angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol y system cyfiawnder teuluol ar sut i fynd i'r afael ag unrhyw ragfarn anymwybodol sy'n parhau oherwydd eu rhagdybiaethau negyddol eu hunain o rolau rhywedd, a sut y gall hyn orgyffwrdd â hil, anabled, oed, rhywioldeb a dosbarth. Wrth fynd i'r afael ag anfanteision lluosog y mae hefyd yn bwysig mynd i'r afael â materion strwythurol sy'n effeithio ar brofiad goroeswr. Gall goroeswyr sy'n wynebu rhwystrau lluosog i gael mynediad at gymorth, megis profi camddefnydd o gyffuriau, pryderon iechyd meddwl, digartrefedd, camfanteisio drwy'r diwydiant rhyw, statws mewnfudo ansicr neu ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, hefyd gael profiadau cronus neu luosog o drais neu gamdriniaeth. Gall profiadau goroeswyr gael eu dwysáu gan iddynt gael eu labelu'n aml gan swyddogion llys fel 'troseddwr', 'hawlydd budd-dâl' neu 'cleient iechyd meddwl', sy'n gallu arwain at gam-drin eilaidd gan y systemau a ddylai gynnig amddiffyniad, cymorth, diogelwch a chyfiawnder.<sup>19</sup> Mae angen rhoi mecanweithiau ar waith er mwyn galluogi i unrhyw fath o rywiaeth neu ragfarn arall gael ei adnabod gan y broses llys fel nad yw rhagdybiaethau'n effeithio'n negyddol ar oroeswyr.

Adleisiwn hefyd bryderon Heddlu De Cymru am yr oedi i achosion llys troseddol pan ellir gohirio achosion am gyfnodau hir tan ddiwedd y gwrandawriad terfynol mewn llys teulu, gan achosi pryder diangen i'r goroeswr a'r plant dan sylw. Gall hyn hefyd gynyddu'r risg gan nad yw'r drwgweithredwr yn cael ei ddal i gyfrif am ei ymddygiad camdriniol yn ystod y cyfnod hwn.

### **Cynlluniwyd cwestiynau 7, 8 a 9 ar gyfer pobl sydd â gwybodaeth a phrofiad o achosion lluosog yn y llysoedd teulu.**

<sup>18</sup> Domestic Abuse, Human Rights and Family Courts, Op Cit, tudalen 5

<sup>19</sup> Against Violence & Abuse (AVA) & Agenda, 'Mapping the Maze: Services for women experiencing multiple disadvantages in England and Wales', AVA & Agenda, 2017.

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



**8. Beth yw'r heriau i lysoedd wrth weithredu PD12J? A yw'n cael ei weithredu'n gyson? Os nad ydyw, sut a pham y mae barnwyr yn amrywio o ran gweithredu'r Cyfarwyddyd Ymarfer.**

Yr her ar gyfer gweithredu PD12J yw'r diffyg dealltwriaeth o reolaeth gymhellol a sut y caiff y llysoedd eu defnyddio gan ddrwgweithredwyr i barhau i aflonyddu a cham-drin menywod a phlant. Fel y nodwyd uchod, os na chaiff y risg ei hystyried, mae'n bosibl na chaiff ei ddefnyddio. Yn ogystal â hyn, ymddengys fod y ffocws parhaus ar 'gyswllt costied a gostio' yn drech na'r defnydd effeithiol o PD12J.

Mae diffyg dealltwriaeth o hyd o'r effaith ar blant o gam-drin domestig pan fo fawr ddim trais corfforol, os o gwbl. Nid yw barnwyr yn aml yn deall effaith rheolaeth gymhellol ar blant sy'n byw yn yr un "gyfundrefn" o ofn. Dywedodd un gweithiwr cymorth wrthym fod sawl math o ymddygiad rheolaethol yn gallu ymddangos fel gweithredoedd o bryder neu amddiffyniad a'u bod yn aml yn cael eu dehongli felly gan y llysoedd. Er enghraifft, stelcian a gaiff ei ddehongli fel canlyniad i anobaith tad o weld ei blentyn, ond sydd, mewn gwirionedd, yn ymddygiad brawychus a bygythiol i'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin.

**9. Beth fu effaith y rhagdybiaeth o blaid cynnwys rhieni mewn achosion pan fo yna gam-drin domestig honedig? Sut y caiff y rhagdybiaeth ei chymhwyso neu ei datgymhwyso yn yr achosion hyn?**

Mae llawer o oroeswyr yn ymwybodol o'r rhagdybiaeth hon a gall gynyddu eu hofn o adael partner camdriniol gan eu bod yn ofni y bydd y drwgweithredwr yn cael cyswllt heb oruchwyliaeth. Fel y nodwyd eisoes, gall mamau geisio amddiffyn eu plant rhag effaith lawn y cam-drin tra maen nhw'n dal yn y berthynas, ond ni allant wneud hynny pan fo yna gyswllt heb oruchwyliaeth.

Caiff y rhadybiaeth hon ei chymhwyso'n aml heb ystyriaeth briodol i allu rhianta'r rhiant camdriniol a heb fesurau diogelwch priodol ar waith. Mae nifer o oroeswyr yn awyddus i'w plant gael cyswllt â'r partner camdriniol ond maen nhw'n pryderu am eu diogelwch eu hunain ac am ddiogelwch eu plant. Rhoddir trefniadau cyswllt diogel ar waith neu gweithredir cyswllt dan oruchwyliaeth am gyfnod byr yn unig. Ni chaiff y risg ei hasesu'n gywir, ac unwaith eto ffocysir yn ormodol ar ymosodiadau corfforol ac ar unrhyw gamdriniaeth uniongyrchol o'r plentyn yn hytrach na chwilio am batrwm o ymddygiad rheolaethol a chymhellol. Mae methiant i ddeall y perygl o niwed i blant gan gynnwys cam-drin emosiynol, rhianta gor-awdurdodol a rheolaeth gymhellol. Awgrymodd goroeswyr hefyd fod y llysoedd yn cynnwys cyfnod adolygu ar gyfer unrhyw orchmynion cyswllt er mwyn sicrhau bod dymuniadau'r plentyn yn cael eu hadlewyrchu'n briodol wrth iddo/iddi dyfu.

Mae goroeswyr wedi siarad hefyd am gyn-bartneriaid nad oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb mewn gweld eu plant neu mewn rhianta tan ar ôl i'r gwahanu ddigwydd ac yna defnyddiwyd y broses llys fel

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



arf i'w dychryn a'u bygwth, yn ychwanegol at hyn, y mae rhagfarn ryweddol lle ceir disgwyliadau llawer is o ddynion o'u cymharu â menywod o ran eu gallu rhianta.<sup>20</sup>

Pryderwn fod y rhagdybiaeth o blaid cyswllt yn drech na lles a dymuniadau'r plentyn, a hynny er gwaethaf y ffaith bod y gyfraith yn glir y dylai diogelwch a lles y plentyn fod o'r pwys mwyaf. Mae hyn yn ailadrodd y pwyntiau a wnaed yn yr ymateb hwn fod cam-drin domestig a brofir gan riant nad yw'n cam-drin yn cael ei ystyried fel mater ar wahân i berthynas y rhiant camdriniol â'r plentyn.

### **10. Pan ganfyddir bod cam-drin domestig wedi digwydd, i ba raddau y mae'r gorchmynion trefniant plant a wneir gan y llys yn wahanol i'r gorchmynion a wneir mewn achosion pan na cheir cam-drin domestig?**

Fel y dywedwyd, ceir ymdeimlad bod y llysoedd teulu yn parhau i weithio tuag at 'gyswllt costied a gostio'. Mae tystiolaethau gan oroeswyr yn nodi bod trefniadau cyswllt yn parhau i gael eu gwneud pan fo yna gam-drin domestig, a hynny bron yn ddi-eithriad. Mewn un astudiaeth, canfuwyd bod gorchmyn am gyswllt wedi'i wneud mewn 81% o achosion<sup>21</sup>. Canfu'r un adroddiad ei fod yn fwy tebygol bod cyswllt heb oruchwyliaeth (gan gynnwys aros dros nos) yn cael ei ganiatáu yn y gorchmyn olaf nag yn y gorchmynion interim. Ymddengys hefyd o'r sampl hwn nad oes llawer o wahaniaeth yn y gorchmynion llys a wneir pan fo yna gam-drin domestig a'r rheini a wneir pan nad oes yna gam-drin domestig.

### **Diogelwch ac amddiffyniad yn y llys i ddioddefwyr cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill**

*Mae Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA y Rheolau Trefniadaeth Teulu yn pennu'r weithdrefn y dylai'r llys teulu ei dilyn mewn perthynas â phartion a thystion sy'n 'agored i niwed'.*

### **11. Beth yw profiad dioddefwyr cam-drin domestig neu droseddau difriol eraill o wneud cais am drefniadau i amddiffyn eu diogelwch yn y llys?**

Yn ymateb Cymorth i Ferched Cymru i'r Bil Cam-drin Domestig galwyd gennym am ragdybiaeth awtomatig o fesurau arbennig ar draws holl systemau'r llys, a'r llysoedd teulu yn arbennig<sup>22</sup>. Galwyd gennym hefyd am roi terfyn ar groesholi goroewyr gan eu drwgweithredwyr. Gwyddom gan oroeswyr eu bod yn pryderu am ddiogelwch yn ystod y broses llys. Canfu Rights of Women fod

<sup>20</sup> Human Rights, Domestic Abuse and the Family Courts, Op Cit, tudalen 6

<sup>21</sup> Rights of Women, Domestic Violence and Child contact, [https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/Picking\\_Up\\_the\\_Pieces\\_Report-2012.pdf](https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/Picking_Up_the_Pieces_Report-2012.pdf), tudalen 61

<sup>22</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/Domestic-Violence-Bill-Briefing-Long.pdf>

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA\\_Translation\\_89\\_WWA\\_response\\_to\\_MOJ\\_inquiry\\_into\\_family\\_courts\\_-\\_FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA_Translation_89_WWA_response_to_MOJ_inquiry_into_family_courts_-_FINAL.docx)  
Pendragon House,  
Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA\\_Translation\\_89\\_WWA\\_response\\_to\\_MOJ\\_inquiry\\_into\\_family\\_courts\\_-\\_FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA_Translation_89_WWA_response_to_MOJ_inquiry_into_family_courts_-_FINAL.docx)



menywod yn dweud nad oedd digon o adnoddau i'w gwahanu oddi wrth eu drwgweithredwyr.<sup>23</sup> Ac mae toriadau i gymorth cyfreithiol wedi arwain at fwy o fenywod yn gorfod cynrychioli eu hunain ac felly'n wynebu'r posibilrwydd o gael eu croesholi gan y drwgweithredwr. Golyga hyn na all menywod siarad yn rhydd am y cam-drin neu am eu pryderon ynghylch diogelwch eu plant. Yn ogystal â hyn, amlygodd un enghraifft i Cymorth i Ferched Cymru effaith uniongyrchol ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, oherwydd heb gyfreithiwr ni allai'r goroeswr wneud cais am adroddiad adran saith gan ofal cymdeithasol y plentyn ac nid oedd y barnwr am ofyn amdano.

Mae pryderon penodol i oroeswyr mewn ardaoedd gwledig, o ran cael mynediad i gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ynghyd â thrafnidiaeth ac amseroedd teithio i'r llys. Pwysleisiodd un aelod fod pryderon ynghylch gofal plant wedi'u diystyru gan y llysoedd yn achos menywod sy'n teithio dros dair awr i gyrraedd adeilad y llys. Nododd yr aelod hwn hefyd fod trafndiaeth gyhoeddus wael yn ei gwneud hi'n anodd cyrraedd y llys ond bod ceisiadau i ddarparu tystiolaeth drwy gyfrwng fideo wedi'u gwrthod yn hwyr yn y broses neu wedi'u gwrthod yn gyfan gwbl.

Yn ogystal â hyn, mae problem gydag union strwythur adeiladau'r llysoedd teulu gan nad ydynt yn darparu amgylchedd diogel sy'n effeithio ar ble y gellir gweithredu mesurau arbennig yn effeithiol neu ble y gellir sicrhau diogelwch goroeswr. Er enghraifft, un fynedfa/allanfa neu ystafelloedd sy'n rhy fach i gynnwys sgriniau. Un enghraifft a amlygwyd inni oedd mynedfa llys penodol yng Nghymru sydd drwy faes parcio aml-lawr, y mae'r drwgweithredwr hefyd yn debygol o'i ddefnyddio. Esboniodd y gweithiwr cymorth fod yna gyfnodau aros hir i dderbyn caniatâd i gael mynediad i'r llys a oedd yn dwysáu'r pryder i'r goroeswr, ac yna arhosiad hir ar y diwedd i sicrhau bod y drwgweithredwr wedi ymadael.

**Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda am brofiadau pan ddarparwyd mesurau diogelwch a phrofiadau pan na chawsant eu darparu a phryd y digwyddodd hyn.**

Dyweodd llawer o oroeswyr wrthym am ddiffygion ac anghysonderau'r llysoedd teulu wrth ddarparu mesurau diogelwch. Dywedodd un goroeswr wrthym y cytunwyd yn rhannol â'i chais am fesurau arbennig, cafodd ystafell aros ar wahân, ond fe ddiystyrwyd ceisiadau eraill, gan gynnwys cael ei Chynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) yn y llys gyda hi. Adleisiwyd hyn gan oroeswyr eraill y gwrthodwyd gadael i'w gweithwyr arbenigol gael mynediad i ystafell y llys neu i'r broses cyfryngu. Canfu ymchwil arall fod goroeswyr yn cael gwybod nad oedd rhai barnwyr yn hoffi menywod yn cael sgriniau a mynedfeydd ar wahân gan ei fod 'yn rhoi'r argraff anghywir ac yn annheg am nad oedd

<sup>23</sup> Ibid, tudalen 61



wedi'i brofi bryd hynny'<sup>24</sup>. Dywedodd un goroeswr wrthym am farnwr yn dweud ei bod yn 'cuddio' y tu ôl i sgrin.

Amlygydd mewn un achos y gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth yn y llysoedd troseddol a honno yn y llysoedd teulu, lle rhoddwyd linc fideo yn y llys troseddol ond nid yn y llys teulu, sy'n dangos anghyfartaledd rhwng y ddwy system sy'n gweithio ar wahân. At hyn, y mae'r angen am welliant o ran rhannu gwybodaeth rhwng y llysoedd, a allai fod o gymorth i liniaru'r perygl o orchmynion llys yn gwrthdaro â'i gilydd gan osod menywod a phlant mewn perygl o bosibl. Er bod y defnydd o fesurau arbennig yn gyffredin yn y broses cyfiawnder troseddol, mae'r ddarpariaeth yn anghyson ac yn annigonol yn y llysoedd teulu, er gwaethaf y ffaith y gall mater troseddol gychwyn achos teuluol.

Clywsom enghreifftiau pellach o'r gwahaniaeth rhwng y llysoedd troseddol a'r llysoedd teulu. Mewn un achos caniatwyd i oroeswr gael gorchymyn atal am oes yn dilyn ymosodiad estynedig a threisgar pan wnaeth y drwgweithredwr hefyd fygwth lladd y plentyn. Fodd bynnag, pan wnaeth y drwgweithredwr gais i'r llys teulu am gyswllt, teimlai'r goroeswr ei bod yn cael ei bwlio ac nad oedd y Bargyfreithiwr yn ei chredu ac ni chafodd ei phryderon eu hystyried.

Dywedodd y goroeswr; *'Yn gyntaf cefais orchymyn i gyfryngu, wnes i wrthod ac aeth yn fy erbyn i. Aeth yn grac sawl gwaith ac wedyn fe wnaeth swyddog diogelwch fy hebrwng i mewn ac allan o'r adeilad er mwyn i fi fod yn ddiogel. Wedyn ar ôl peth amser stopiwyd y diogelu. Aeth e'n grac hyd yn oed yn y llys ddwywaith, roedd e'n gweiddi enllibion a gadawodd o'i wirfodd. Ond hyd yn oed wedyn fe basiodd y barnwr farn, a dwi'n dyfynnu "Gallaf weld pam y mae'n ddig gan nad yw wedi gweld ei blant ers dros flwyddyn." Nawr roedd hyn ar ôl i'r plant wneud sawl honiad i'r heddlu bod eu tad nhw'n eu niweidio nhw neu'n bygwth gwneud hynna!!!'*

## 12. A yw llysoedd teulu yn gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch a yw dioddefwr honedig camdrin domestig neu droseddau difrifol eraill yn agored i niwed?

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

<sup>24</sup> Human Rights, Domestic Abuse and Child Contact, Op Cit, tudalen 28  
<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)  
[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx)



Pryderwn na ddeallir yn aml sefyllfa fregus goroeswyr cam-drin domestig, yn arbennig y lefel o ofn a brofir ac effeithiau rheolaeth gymhellol. Gall stereoteipiau ar sail rhywedd am y math o fenyw a fydd yn dioddef cam-drin domestig hefyd chwarae rhan yn hyn.

Nododd un goroeswr y gall; *'Diffyg tystiolaeth neu beidio â chael digon o amser i ddarllen y cyfan, a'r cysondeb o gael yr un barnwr'* arwain at lys yn methu â deall sefyllfa fregus.

### **Beth sy'n helpu neu'n rhwystro'r llys wrth wneud y penderfyniadau hyn?**

Pryderwn y caiff ei lesteirio gan ddiffyg dealltwriaeth o effeithiau trawma trais a cham-drin yn ogystal â diffyg dealltwriaeth o'r ddynameg pŵer rhwng y drwgweithredwr a'r goroeswr. Gall drwgweithredwyr hefyd swyno a maniwpwleiddio staff llys ac mae diffyg adnoddau a chyngor arbenigol i helpu staff llys i ddelio gyda sefyllfa fregus.

### **13. Beth yw profiad dioddefwyr cam-drin domestig a throseddau difrifol eraill o gael eu croesholi'n uniongyrchol gan eu cam-driniwr/drwgweithredwr honedig? Beth yw eu profiad o orfod gofyn cwestiynau i'w camdriniwr/drwgweithredwr honedig?**

**Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda am brofiadau pan ganiatawyd croesholi neu pan oedd yn angenrheidiol a phryd y digwyddodd hyn, yn ogystal â phrofiadau pan gafodd croesholi ei osgoi mewn rhyw ffordd – nodwch sut a phryd y digwyddodd hyn os gwelwch yn dda.**

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi galw am ddileu croesholi goroeswyr gan eu drwgweithredwyr. Gwyddom gan oroeswyr eu bod yn pryderu am ddiogelwch yn ystod y broses llys. Canfu Rights of Women fod menywod wedi adrodd am ddiffyg cyfleusterau i'w gwahanu oddi wrth eu drwgweithredwyr. Mae toriadau i gymorth cyfreithiol wedi arwain at fwy o fenywod yn gorfod cynrychioli eu hunain ac felly'n wynebu'r posibilrwydd o gael eu croesholi gan y drwgweithredwr. Golyga hyn na all menywod siarad yn rhydd am eu camdriniaeth nac am eu pryderon ynghylch diogelwch eu plant. At hyn, dangosodd enghraifft a amlygwyd i Cymorth i Ferched Cymru effaith uniongyrchol ar y dystiolaeth a gyflwynwyd o ganlyniad i ddiffyg cymorth cyfreithiol neu gyfreithiwr, gan na allai'r goroeswr wneud cais am adroddiad adran saith gan y gwasanaethau cymdeithasol ac nid oedd y barnwr yn yr achos am ofyn amdano.

Pryderwn hefyd fod diffyg cymorth cyfreithiol yn atal goroeswyr. Mae angen adolygu rheoliadau cymorth cyfreithiol er mwyn sicrhau bod prawf modd yn adlewyrchu sefyllfa ariannol wirioneddol y goroeswr, yn hytrach nag eiddo neu asedau eraill na ellir cael mynediad atynt oherwydd cam-drin economaidd. Mae cynrychiolaeth ddigonol o ran cymorth cyfreithiol hefyd yn broblem mewn sawl ardal wledig yng Nghymru erbyn hyn lle y ceir lleihad mewn argaeledd cyfreithwyr neu fargyfreithwyr.

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx)



**Cynlluniwyd cwestiynau 13 a 14 ar gyfer pobl sydd â gwybodaeth a phrofiad o achosion lluosog yn y llysoedd teulu.**

**14. Beth yw'r heriau i lysoedd wrth weithredu FPR Rhan 3A a PD3AA? A ydynt yn cael eu gweithredu yn gyson? Os nad ydynt, sut a pham y maen nhw'n anghyson?**

Er ein bod yn croesawu ychwanegu Rhan 3A a PD3AA, pryderwn fod y broses o'u gweithredu yn anghyson a hynny oherwydd strwythur adeiladau'r llysoedd teulu, fel y pwysleisiwyd yn yr ymateb hwn, a'r diffyg o hyd o ran hyfforddiant.

Fel y nodwyd, mae aelodau a goroeswyr wedi dweud wrthym fod yr adeiladau ffisegol eu hunain, lle y ceir ystafelloedd sy'n rhy fach neu lle y ceir un fynedfa/allanfa yn unig, yn golygu bod gweithredu'r prosesau hyn yn her. Yn ogystal â hyn, caiff dealltwriaeth y farnwriaeth o sefyllfa fregus mewn perthynas â cham-drin domestig ei chamddeall a chaiff mesurau arbennig naill ai eu gwrthod neu eu gwawdio.

**15. Pa mor effeithiol yw'r darpariaethau hyn o ran amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill rhag niwed mewn achosion plant cyfraith breifat?**

Ar hyn o bryd, mae'r dull annigonol o adnabod cam-drin domestig a'i effaith ar allu'r rhiant nad yw'n cam-drin i gael mynediad i weithdrefnau'r llys teulu, ynghyd â'r defnydd hynod gyfyngedig o fesurau arbennig a'r defnydd o FPR Rhan 3A a PD3AA, yn golygu bod y darpariaethau hyn yn aneffeithiol o ran diogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn galw am roi hyfforddiant o ansawdd uchel ar waith ar frys ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol perthnasol yn y llysoedd teulu a hwnnw'n hyfforddiant ar adnabod cam-drin domestig ac arweiniad ynghylch sut i weithredu mesurau arbennig a chyfarwyddyd ymarfer i gefnogi goroeswyr. Yn ogystal â hyn, mae angen sicrhau bod gwasanaethau cymorth arbenigol digonol a llwybrau atgyfeirio cadarn ar gael iddynt er mwyn sicrhau cefnogaeth barhaus i'r goroeswyr. Dylai hyn hefyd hwyluso cydweithio gyda gwasanaethau cymorth arbenigol er mwyn sicrhau y gallant ddarparu cymorth o fewn proses y llys, gan gynnwys hebrwng goroeswyr pan fo angen.

**Ceisiadau ailadroddol i'r llys teulu yng nghyd-destun cam-drin domestig**

*Gall ceisiadau ailadroddol gan riant i'r llys teulu wneud gorchmynion mewn perthynas â'i phlentyn/blentyn neu i amrywio neu orfodi gorchmynion a wnaed eisoes, gael yr effaith o aflonyddu ar y rhiant arall a chael effeithiau andwyol ar y plant. Mae Adran 91(14) y Ddeddf Plant 1989 yn rhoi'r pŵer i'r llys i atal rhiant rhag gwneud unrhyw geisiadau pellach heb dderbyn caniatâd y llys yn gyntaf. Os bydd y rhiant hwnnw'n gofyn am ganiatâd y llys i wneud cais arall, cyfeirir at hyn fel gofyn am 'caniatâd i wneud cais'.*

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)





## 16. Pa dystiolaeth a geir o geisiadau ailadroddol mewn perthynas â phlant yn cael eu defnyddio fel dull o gam-drin, aflonyddu neu reoli'r rhiant arall?

Mae llawer o oroeswyr wedi siarad am ddrwgweithredwyr yn defnyddio'r llys i barhau i fygwth a rheoli ond hefyd i achosi ansicrwydd ariannol. Mae adroddiadau wedi canfod enghreifftiau o ddrwgweithredwyr 'nad oedd yn trafferthu' ynghylch eu plant tan iddynt wneud cais i'r llys, gan awgrymu mai eu hunig ddi-ddordeb mewn cael cyswllt oedd i barhau â'r cam-drin. Mae darnau amrywiol o ymchwil wedi canfod y caiff cyswllt ei ddefnyddio fel llwybr i barhau â'r manipiwleiddio<sup>25</sup>. Canfu Rights of Women fod sawl menyw yn teimlo eu bod yn cael eu 'llusgo' yn ôl i'r llys dro ar ôl, caiff hyn ei adleisio hefyd yn lleisiau'r goroeswyr y siaradom â nhw; *'Gofynnais i am orchymyn, ar ôl iddo fe gael ei ystyried yn berygl, fel na alle fe wneud ail gais i'r llys ac unwaith i'r plant ddod i oedran gallan nhw ofyn am gael ei weld e os felly mae. Cafodd ei wrthod a dywedon nhw taw dim ond dwywaith mae e wedi gwneud cais a daeth yn amlwg ei fod e'n gallu gwneud cais hyd at 5 gwaith cyn y bydden nhw'n ymchwilio i hyn.'*

Dim ond mewn un achos yn unig y canfu Rights of Women i ddrwgweithredwr gael ei ystyried yn 'ymgyfreithiwr blinderus' am ei geisiadau ailadroddol i'r llys. Unwaith eto, dengys hyn nad yw'r llysoedd fel petaent yn adnabod sut y mae dynion camdriniol yn defnyddio ceisiadau lluosog i'r llysoedd er mwyn parhau i arfer rheolaeth.

## 17. O dan ba amgylchiadau y mae llysoedd teulu yn gwneud gorchmynion o dan s.91(14)?

Nid yw Cymorth i Ferched Cymru yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth o ddefnyddio s.91 yn effeithiol. Felly, ymddengys nad yw'r llysoedd yn gwneud y gorchmynion hyn fel mater o drefn mewn achosion o gam-drin domestig. Mae gweithwyr teulu yr ymgynghorwyd â nhw wedi dweud wrthym na welsant unrhyw enghreifftiau ohono'n cael ei ddefnyddio i ddod â cheisiadau ailadroddol i ben. Amlyga hyn y diffyg hyfforddiant a'r diffyg dealltwriaeth o'r ffaith bod drwgweithredwyr yn defnyddio'r system fel ffordd o barhau i arfer rheolaeth gymhellol. Awgryma hefyd ragfarn gynhenid barhaus sy'n cefnogi 'cyswllt costied a gostio' drwy ganiatáu ceisiadau ailadroddol mewn achosion sydd eisoes wedi amlygu cam-drin domestig.

## 18. Sut y mae llysoedd yn ymdrin â cheisiadau am ganiatâd i wneud cais yn dilyn gorchmyn s.91(14)?

Nid oes gennym dystiolaeth o hyn.

<sup>25</sup>Rights of Women, Op Cit, tudalen 11



Cynlluniwyd cwestiynau 18 a 19 ar gyfer pobl sydd â gwybodaeth a phrofiad o achosion lluosog yn y llysoedd teulu.

**19. Beth yw'r heriau i lysoedd wrth wneud cais am s.91(14), gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd i wneud cais? A oes cysondeb o ran gwneud penderfyniadau? Os nad oes, sut a pham y mae anghysonderau'n codi?**

Nid oes gennym dystiolaeth o hyn.

**20. Pa mor effeithiol yw gorchmynion s.91(14) o ran amddiffyn plant a rhieni nad ydynt yn cam-drin rhag cael niwed?**

Ymddengys nad yw s.19 (14) yn arbennig o effeithiol oherwydd y nifer o fenywod a nododd geisiadau ailadroddol gan ddrwgweithredwyr fel dull o reoli ac oherwydd y nifer cyfyngedig o enghreifftiau ohono'n cael ei ddefnyddio i'w hatal. Yn ogystal â hyn, ni fyddai gorchmyn yn amddiffyn plant rhag drwgweithredwyr sy'n mynnu gweld eu plant drwy fynd i'r ysgol, stelcian ar y cyfryngau cymdeithasol a gorfodi'r plant i gael cyswllt. Byddai angen ei ategu gan orchmynion sifil eraill er mwyn amddiffyn y rhiant nad yw'n cam-drin, a chan weithdrefnau diogelu er mwyn amddiffyn y plentyn.

#### Canlyniadau i blant

**21. Pa dystiolaeth a geir o blant a rhieni yn dioddef niwed o ganlyniad i orchmynion a wnaed mewn achosion plant cyfraith breifat, pan fo cam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill yn erbyn rhiant neu blentyn? (Gall hyn gynnwys niwed i riant a achoswyd gan orchmynion trefniadau plant sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ryngweithio â'r rhiant arall er mwyn hwyluso cyswllt).**

Rhowch fanylion os gwelwch yn dda am y math(au) o niwed sydd wedi digwydd, pryd y digwyddodd y niwed, y math(au) o orchmynion a wnaed ac a gawsant eu gwneud drwy drefniant rhwng y partion neu'u cyfreithwyr, neu drwy benderfyniad gan y llys.

*'Cafodd fy mhlant eu cam-drin yn gorfforol, eu bygwth ar lafar a nawr mae fy merch eisiau lladd ei hunan wrth feddwl am gael ei gorfodi i fynd at ei thad.'*

Y dystiolaeth fwyaf grymus o blant a mamau'n dioddef niwed o ganlyniad i orchmynion a wnaed gan y llysoedd yw'r menywod a'r plant hynny a laddwyd yn dilyn trefniadau cyswllt plant. Dengys adroddiad Women's Aid Federation England, *19 Child Homicides Report*, hyn yn glir. O'r 12 teulu a fu'n rhan o'r astudiaeth, roedd 6 yn achosion o gyswllt a orchmynnwyd gan y llys. Roedd gan bob un o'r 12 tad hanes hysbys o gam-drin domestig ond, serch hynny, caniatawyd cyswllt â'r plant.

Mae Grŵp Gwasanaeth Grymuso ac Addysgu Goroewyr (SEEdS) Cymorth i Ferched Cymru hefyd wedi siarad yn helaeth am y llysoedd teulu a sut y maen nhw a'u plant wedi'u niweidio o ganlyniad i'r

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



gorchymnion, gydag enghreifftiau o blant yn cael eu trawmateiddio o orfod gweld eu tad; *'Mae fy mhlentyn i'n gwlychu'r gwely, ddim yn canolbwyntio, yn ofni gweld ei dad ac mewn stad ofnadwy cyn ac ar ôl yr ymweliad.'*<sup>26</sup>

Math arall o niwed a nodwyd gan oroeswyr yw caledi ariannol; gan gynnwys cael eu galw'n ôl i'r llyso dro ar ôl, y perygl o golli eu swydd, costau gofal plant ac yna gostau parhaus yn dilyn y gorchymyn. Er enghraifft, siaradodd goroeswyr am ddrwgweithredwyr yn methu â chyfrannu'n ariannol, neu'n cadw eitemau'r plant fel y byddai'r fam yn gorfod prynu mwy ac yn mynnu ei bod hi'n talu am gludiant y plentyn. Wrth gwrs, yn aml câi hyn i gyd ei ddwysáu gan y cam-drin ariannol a brofodd y goroeswyr yn ystod y berthynas.<sup>27</sup> Un enghraifft a gawsom wrth gasglu tystiolaeth oedd honno am dad a orfododd ei blentyn, cyn iddi ddychwelyd adref, i dynnu'r dillad yr oedd ef yn eu cadw yn ei gartref yn ogystal â gorfodi'r plentyn i dynnu ei hesgidiau ymarfer corff ar ddiwrnod mabolgampau'r ysgol, gan ei fod yn honni bod y fam yn dwyn pethau yr oedd wedi'u prynu i'r plentyn.

Rhoddodd gweithwyr cymorth enghreifftiau i ni o fam y dywedwyd wrthi i barhau i anfon ei phlentyn i gael cyswllt heb oruchwyliaeth gyda'r tad, er gwaethaf y ffaith i'r plentyn wneud honiad o gam-drin rhywiol. Penderfynodd y barnwr y dylid parhau â'r cyswllt tra bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud ymchwil.

Roedd enghraifft arall yn cynnwys plentyn (12 oed) yn derbyn cyfarwyddyd, yn ystod cyswllt heb oruchwyliaeth gyda'r tad, i gysgu yng ngwely ei fam er mwyn sicrhau nad oedd hi'n cysgu gydag unrhyw un arall, a phlentyn a oedd yn dyst i'w fam yn cael ei thagu pan ollyngodd y drwgweithredwr ef adref ar ôl cael cyswllt.

Mae goroeswyr wedi dweud wrthym hefyd, unwaith y caniatwyd mynediad, y byddai drwgweithredwyr yn defnyddio hyn i barhau i fygwth ond hefyd i newid trefniadau, gan barhau felly i arfer rheolaeth drwy newid eu trefniadau a'u disgwyliadau o ddydd i dydd, gan hybu'r cam-drin.

## **22. Pa dystiolaeth sydd ar gael o'r perygl i blant o barhau i gael perthynas – neu o beidio â chael perthynas – gyda rhiant sy'n cyflawni cam-drin domestig (gan gynnwys rhiant sydd wedi arfer rheolaeth gymhellol dros y teulu)?**

Canfu'r Athro Evan Stark mai cam-drin domestig yw'r prif gyd-destun lle y caiff plant eu cam-drin<sup>28</sup>. Mae ei ddegawdau o waith wedi dangos bod plant, yn ogystal â'r fam, yn cael eu rheoli'n gymhellol ac y caiff yr un tactegau a ddefnyddir gan y drwgweithredwr yn erbyn y rhiant nad yw'n cam-drin hefyd eu defnyddio yn erbyn y plant. Bydd hyn yn parhau, wrth gwrs, ar ôl gwahanu os caniateir i'r

<sup>26</sup> Ydych chi'n Gwranddo, Ydw i'n cael fy nghlywed? Op Cit, tudalen 39

<sup>27</sup> Rights of Women, Op Cit, tudalen 71

<sup>28</sup> <https://www.youtube.com/watch?v=kvHbVzTzpX0>



drwgweithredwr gael cyswllt â'r plentyn, heb fod y fam yno i geisio lliniaru'r niwed. Ategwyd y canfyddiadau hyn gan Dr Emma Katz a nododd fod yr un patrwm o ynysu, bygwith a rheoli plant yn digwydd. Canfu'r Athro Evan Stark fod drwgweithredwyr yn gwneud eu plant yn 'arf' yn erbyn y fam, yn ogystal â'u defnyddio fel teganau yn eu dwylo yn ystod y broses llys. Yn ôl Stark, mae ymyriadau sy'n rhagdybio gwahanu buddiannau'r fam oddi wrth fuddiannau'r plentyn, megis parhau i weld y tad camdriniol, yn gwneud cam â'r fam a'r plentyn ac mewn gwirionedd yn ailadrodd bwriadau'r camdriniwr<sup>29</sup>.

Ategir hyn gan oroeswyr sydd wedi siarad am y drwgweithredwr yn defnyddio cyswllt i droi'r plentyn yn erbyn y fam, er enghraifft drwy ddangos iddynt yn ystod sesiynau cyswllt beth ddywedodd y fam yn ystafell y llys neu danseilio ei gallu i rianta<sup>30</sup>. Mae'r math hwn o ymddygiad yn debygol o fod yn ddilyniant i ymdrechion y drwgweithredwr i danseilio'r berthynas rhwng y fam a'r plentyn cyn y gwahanu, gan fod Dr Emma Katz wedi canfod bod defnydd drwgweithredwyr o reolaeth gymhellol yn ymgais i danseilio'r berthynas rhwng y fam a'r plentyn ac y caiff ei arfer yn fwriadol dros y plant hefyd.

Pan fydd y llys yn gorchymyn cyswllt, yn groes i ddymuniadau'r plant, byddant yn dysgu nad yw eu llais yn bwysig. Yn ogystal â hyn, tanseilir y berthynas rhwng y rhiant nad yw'n cam-drin a'r plentyn pan ddywed y plentyn nad yw am fynd ond yn dal, serch hynny, i 'orfod' mynd. Mae hyn yn enghraifft o'r gwasanaethau statudol yn parhau â gwaith y drwgweithredwr o danseilio'r berthynas rhwng y fam a'r plentyn.

Gall plant hefyd brofi cael eu gwrthod gan ddrwgweithredwyr sy'n defnyddio cyswllt i gosbi eu cyn-bartner. Er engraifft, drwy beidio â mynd i'r trefniadau cyswllt, siomi'r plant ar y funud olaf, neu wrthod eu gweld ar ryw ddiwrnod penodol. Gall plant fewnoli hyn i ymdeimlad o hunan-werth isel.

Nododd gweithiwr cymdeithasol hefyd, pan fyddant yn darparu cymorth i blant sy'n parhau i gael cyswllt gyda drwgweithredwyr, fod y broses adfer yn gyfyngedig gan eu bod yn parhau i ddiodef camdriniaeth a rheolaeth gymhellol. Maen nhw'n parhau i fod mewn stad o oroesi'n unig wrth iddynt barhau i fyw gydag ofn a phryder. Dywedodd goroeswr wrthym; *'Disgynnodd graddau'r plant. Doedd fy mab i ddim hanner da a chafodd ei wneud yn sâl drwy gael bwyd llaeth sy'n rhoi alergedd difrifol iddo fe. Dwi'n cedu dylai plentyn dyfu i fyny gyda'r ddau riant, mae pethau allwn i byth eu dysgu iddyn nhw, ond dwi hefyd yn credu y dylen nhw gael eu caru a chael gofal, a byth deimlo'n anniogel (ond ffynnu).'*

<sup>29</sup> <https://www.youtube.com/watch?v=kvHbVzTzpX0>

<sup>30</sup> Rights of Women, Op Cit, tudalen 66



**23. Pa dystiolaeth sydd ar gael o'r perygl i blant o barhau i gael perthynas – neu o beidio â chael perthynas – gyda rhiant sydd wedi cyflawni troseddau difrifol eraill yn erbyn y rhiant arall neu blentyn, megis cam-drin plant, treisio, ymosodiad rhywiol neu lofruddiaeth?**

Mae achosion a nodwyd yn adroddiad *19 Child Homicides* gan Women's Aid Federation England, yn cynnwys y rheini lle roedd y drwgweithredwr yn y carchar am droseddau yn erbyn y fam, yn ogystal â cheisio tagu, ymosodiad rhywiol a bygwth herwydio neu herwydio go iawn,<sup>31</sup> a chanfu dadansoddiad o adolygiadau achosion difrifol fod cam-drin domestig wedi ymddangos ym mhob achos o lofruddiaeth plentyn gan riant<sup>32</sup>.

Er gwaethaf y canfyddiadau hyn a'r adroddiad dilynol i *19 Child Homicides*, canfu 'What About My Right Not to be Abused?', pan oedd menywod yn ceisio codi pryderon ynghylch diogelwch, y tybiwyd eu bod yn ceisio rhwystro cyswllt heb reswm da, a hynny oherwydd na waned y cyswllt rhwng cam-drin domestig a diogelwch plant. Y teimlad ymhlith cyfranogwyr yn yr adroddiad hwn oedd bod y llys yn ystyried y cam-drin domestig yn hanesyddol ac felly y dylid 'symud ymlaen' a chaniatáu i'r plentyn/plant gael perthynas<sup>33</sup>.

**Unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill**

**24. A oes unrhyw enghreifftiau o arferion da yn y llysoedd teulu neu rai y gallai'r llysoedd teulu eu mabwysiadu (efallai o feysydd eraill o'r gyfraith) mewn perthynas â'r materion sy'n cael eu hystyried gan y panel?**

Mae'n amlwg bod angen adnabod cam-drin domestig yn llawer cynt yn y broses llys, a dylai hyn ganiatáu i'r achos gael gwrandawriad gan farnwr sydd wedi'i hyfforddi mewn cam-drin domestig. Yn ogystal â hyn, teimlwn fod angen llys dynodedig i wrando ar achosion pan fo cam-drin domestig wedi'i nodi, gan adleisio model y Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais Domestig (SDVC). Dangoswyd bod model y Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais Domestig o fewn y system cyfiawnder troseddol yn gwella canlyniadau diogelwch i oroeswyr ac yn lleihau cyfraddau tynnu yn ôl a gadael<sup>34</sup>.

**25. A ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill ynghylch y materion sy'n cael eu hystyried gan y panel?**

<sup>31</sup> 19 child homicides, Op Cit, tudalen 18

<sup>32</sup> Sidebotham, P. et al (2016) Pathways to harm, pathways to protection: A triennial analysis of serious case reviews 2011 – 2014, tudalen 77. Department for Education.

<sup>33</sup> Domestic Abuse, Human Rights and the Family Courts, Op Cit, tudalen 30

<sup>34</sup> [http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/SDVC\\_STADV.pdf](http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/SDVC_STADV.pdf)

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)



Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu bod y diffyg canolfannau cyswllt yng Nghymru, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn dwysáu ymhellach y problemau a nodwyd ac yn llesteirio trefniadau cyswllt diogel dan oruchwyliaeth. Deallwn mai 6 sesiwn yn unig mewn canolfan gyswllt y gall Cafcass Cymru eu hariannu ac yna mai cyfrifoldeb y rhiant yw parhau i dalu am y rhain. Pryderwn y gallai hyn roi cyfle arall i gam-drin yn economaidd, pan fo drwgweithredwr er enghraifft yn mynnu bod y goroeswr yn talu am y sesiynau hyn gan iddi herio'r cais am gyswllt heb oruchwyliaeth.

Yn olaf, pryderwn nad oes digon o bwys yn cael ei roi ar yr arbenigedd o fewn y sector trais yn erbyn menywod a'u rôl o ran cefnogi nid yn unig y fam a'r plant ond hefyd o ran darparu arbenigedd i staff y llys. Mae angen rhoi mwy o adnoddau i weithwyr cam-drin domestig arbenigol yn y llysoedd teulu sydd yn yr un lle, a dylid sicrhau yn ogystal bod adnoddau ar gael pan nad yw'r achos wedi'i ystyried yn un risg uchel a phan nad oes felly Gyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig wedi'i neilltuo; dylai gwasnaethau cymorth gael eu hariannu'n well i hebrwng menywod i'r llysoedd ac i fod o gymorth i esbonio'r weithdrefn yn ogystal â darparu cymorth emosiynol.

[https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx) Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE  
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |  
Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)  
Registered Charity Number: 1140962 [https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA Translation 89 WWA response to MOJ inquiry into family courts - FINAL.docx](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA%20Translation%2089%20WWA%20response%20to%20MOJ%20inquiry%20into%20family%20courts%20-%20FINAL.docx)